**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

12 Mehefin 2024

Annwyl Mr Isherwood

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22**

Pan roddais ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22, cytunais i ddarparu diweddariad ar Argymhelliad 18 erbyn 30 Mehefin 2024.

Mae'r argymhelliad gwreiddiol a'n hymateb ninnau i'w gweld isod.

***Argymhelliad 18***

*Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r ffordd y mae'n adrodd colledion i'r Senedd a rhoi esboniad o'r hyn y mae'n ei ystyried yn golled "ddifrifol", yn unol â pharagraff A4.9.6 o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.*

***Derbyn***

*Byddwn yn adolygu'r ffordd y rhoddwyd gwybod i'r Senedd am yr holl golledion dros y pum mlynedd diwethaf, yn ystyried arferion da mewn mannau eraill ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn erbyn 30 Mehefin 2024 ar ein canfyddiadau, gan gynnwys os ydym o'r*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

*farn bod angen diweddaru ein canllawiau cyfredol ar sut yr ydym yn rhoi gwybod am golledion neu'n diffinio colled ddifrifol.*

Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, rydym wedi edrych ar y ffordd y rhoddwyd gwybod am golledion dros y pum mlynedd diwethaf ac wedi cymharu'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn adrodd am golledion difrifol â'r adroddiadau a wneir gan y Llywodraethau datganoledig eraill a Llywodraeth y DU.

Rydym wedi nodi bod ein harferion adrodd a'r ffordd yr ydym yn diffinio colled ddifrifol yn gyson â'r gweinyddiaethau eraill. Mae hyn yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru sy'n ystyried bod colled yn "ddifrifol" os caiff ei hadrodd i'r Senedd drwy Ddatganiad Ysgrifenedig.

Mae'r diffiniad o golled ddifrifol yn ddibynnol ar yr amgylchiadau sy'n berthnasol iddi. Nid yw'n briodol, felly, rhoi gwerth na throthwy ar golled ddifrifol. Mae colledion o werth mawr yn ddifrifol, ond ni fyddem am gael trothwy a fyddai'n golygu na ellid ystyried bod colledion o werth llai islaw'r trothwy hwnnw yn rhai difrifol, ac na fyddent yn cael eu dwyn i sylw'r Senedd felly. Mae angen dwyn i gof y rheswm dros y golled hefyd wrth benderfynu a chaiff ei hystyried yn golled ddifrifol ai peidio. Er enghraifft, efallai y bydd colled o ganlyniad i dwyll allanol yn cael ei hystyried yn un ddifrifol, ond na fydd colled o'r un swm yn ystod cwrs arferol busnes o ganlyniad i symudiadau yn y cyfraddau cyfnewid yn cael ei hystyried felly. Yn y pen draw, y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol neu'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ddylai gwneud y dyfarniad.

Byddwn yn sicrhau bod canllawiau yn cael eu cyhoeddi yn egluro hyn a'i fod yn cael ei adlewyrchu yn y diweddariad i Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Yn gywir,

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en